# Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

**2013 dccc 1**

## RHAN 2

SAFONAU

## PENNOD 1

YMYRRYD YM MATERION RHEDEG YSGOLION A GYNHELIR

*Ymyrraeth gan Weinidogion Cymru*

### 16 Pŵer Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo bod ysgol yn cael ei chau

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os oes gan Weinidogion Cymru bwer i ymyrryd ym materion rhedeg ysgol a gynhelir ar dir sail 8 (ysgol y mae arni angen mesurau arbennig).

(2) Caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i'r awdurdod lleol yn ei gwneud yn ofynnol i'r ysgol gael ei therfynu ar ddyddiad a bennir yn y cyfarwyddyd.

(3) Cyn rhoi cyfarwyddyd o dan is-adran (2), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r canlynol—

(a) yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol,

(b) corff llywodraethu'r ysgol,

(c) yn achos ysgol sefydledig neu wirfoddol—

(i) y person sy'n penodi'r llywodraethwyr sefydledig, a

(ii) os yw'r ysgol yn ysgol sydd â chymeriad crefyddol, y corff crefyddol priodol, ac

(d) unrhyw bersonau eraill sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, Adran 16 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 28 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(4) Wrth roi cyfarwyddyd i derfynu'r ysgol, rhaid i Weinidogion Cymru roi hysbysiad ysgrifenedig hefyd am y cyfarwyddyd i gorff llywodraethu'r ysgol a'i phennaeth.

(5) Pan fo cyfarwyddyd yn cael ei roi i'r awdurdod lleol o dan is-adran (2), rhaid iddo derfynu'r ysgol o dan sylw ar y dyddiad a bennir yn y cyfarwyddyd; ac nid oes dim yn Rhan 3 sy'n gymwys i derfynu'r ysgol o dan yr adran hon.

(6) Yn yr adran hon mae unrhyw gyfeiriad at derfynu ysgol a gynhelir yn cyfeirio at yr awdurdod lleol yn peidio â'i chynnal.

**Addasiadau (ddim yn newid testun)**

**C1** Rhn. 2 Pnd. 1 wedi ei eithrio (20.2.2014) gan 2010 c. 15, **a. 87(4)** (fel y'i mewnosodwyd gan Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (anaw 1), a. 100(4), **Atod. 5 para. 11(3)**; O.S. 2014/178, ergl. 2(f) (ynghyd ag **ergl. 3**))

**C2** Rhn. 2 Pnd. 1: rhoddwyd pŵer i addasu (20.2.2014) gan 2011 nawm 7 a. 0018(01)(a) (wedi ei amnewid (C.) gan Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (anaw 1), a. 100(4), **Atod. 5 para. 13(3)(a)**; O.S. 2014/178, ergl. 2(f) (ynghyd ag **ergl. 3**))

**C3** Rhn. 2 Pnd. 1 wedi ei addasu (20.2.2014) gan 1998 c. 30, **a. 19(12)** (fel e'i amnewid (C.) gan Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (anaw 1), a. 100(4), **Atod. 5 para. 3**; O.S. 2014/178, ergl. 2(f) (ynghyd ag **ergl. 3**))

**C4** Rhn. 2 Pnd. 1 wedi ei addasu (20.2.2014) gan 1988 c. 40, a. 219(3A) (fel y'i mewnosodwyd (C.) gan Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (anaw 1), a. 100(4), **Atod. 5 para. 1(3)**; O.S. 2014/178, ergl. 2(f) (ynghyd ag ergl. 3))

**C5** Rhn. 2 Pnd. 1 wedi ei addasu (20.2.2014) gan 2002 c. 32, a. 34(7) (fel y'i diwygiwyd gan Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (anaw 1), a. 100(4), **Atod. 5 para. 6(2)**; O.S. 2014/178, ergl. 2(f) (ynghyd ag ergl. 3))

**C6** Rhn. 2 Pnd. 1 cymhwyswyd (ynghyd â addasiadau) (20.2.2014) gan 2010 c. 15, a. 87(3)(a) (fel y'i mewnosodwyd gan Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (anaw 1), a. 100(4), **Atod. 5 para. 11(3)**; O.S. 2014/178, ergl. 2(f) (ynghyd ag ergl. 3))

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 16 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(4)**

**I2** A. 16 mewn grym ar 20.2.2014 gan O.S. 2014/178, **ergl. 2(a)** (ynghyd ag ergl. 3)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, Adran 16 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 28 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

- Pt. 3 Ch. 3A inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 29(7)
- s. 1(9A) inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 29(2)(a)
- s. 38(2)(ca) inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 29(3)(a)
- s. 38(5)(ca) inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 29(3)(b)
- s. 39(1)(ca) inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 29(4)
- Sch. 2 para. 19(2)(c)(i) word inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 29(12)(b)